ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Uned: Cyfathrebu Syniadau

TGCh Blwyddyn 2

Trosolwg o'r Uned hon:
Bydd y plant yn defnyddio'r cyfrifiadur i ysgrifennu brawddegau syml gan gynnwys atalnodau llawn a'r fysell shifft ar gyfer prif lythrennau. Byddant yn dysgu sut i ddefnyddio'r fysell Enter ac yn gallu ychwanegu a dileu geiriau a mynd yn ôl i wneud newidiadau. Maent yn gallu newid y maint, lliw ac arddull y Ffont a siarad am y gwahaniaethau rhwng llawysgrifen a defnyddio'r cyfrifiadur ar gyfer testun ysgrifenedig.
Maent yn gallu defnyddio delweddau a seiniau i wella testun a deall yr angen i gadw gwaith. Maent yn gallu Cadw ac Adalw gyda chymorth, argraffu'n annibynnol a siarad am eu gwaith a rhannu syniadau gydag eraill.
Bydd y plant yn dysgu y gellir defnyddio cyfrifiadur i anfon a derbyn negeseuon drwy e-bost ac y gellir defnyddio rhai gwefannau i anfon negeseuon neu e-gyfarchion.

Disgwyliadau ar ddiwedd yr uned hon:

Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu: Creu darn o destun ysgrifenedig ar y cyfrifiadur wrth ddefnyddio sgiliau bysellfwrdd priodol gan gynnwys bysell Syflyd a Bwydo, ac yn gallu golygu a chywiro gwaith wrth ddefnyddio Backspace a Dileu. Maent yn gallu siarad am eu gwaith a defnyddio delweddau a seiniau i wella eu hysgrifennu a chadw ac adalw gwaith gyda chymorth. Maent yn gwybod y gellir defnyddio cyfrifiaduron i anfon a derbyn negeseuon ac yn gallu anfon a derbyn e-bost gyda help.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: Creu brawddegau syml a bydd angen eu hatgoffa am ddefnyddio'r fysell Syflyd i greu prif lythrennau. Mae'n bosibl y bydd angen help arnynt i ddefnyddio delweddau a seiniau a golygu a chadw eu gwaith.

Bydd rhai disgyblion hefyd yn gallu: Creu darn o destun ysgrifenedig ar y cyfrifiadur gan ddefnyddio sgiliau bysellwrdd priodol ac yn gallu newid arddull, maint a lliw'r ffont. Maent yn gallu defnyddio delweddau a seiniau i wella testun a Chadw ac Adalw gyda chymorth. Maent yn gallu argraffu a siarad am eu gwaith a rhannu syniadau ag eraill. Maent yn dangos hyder i weithio'n annibynnol ac yn gallu gwneud dewisiadau am raglen briodol i wneud eu gwaith.

ALLWEDD:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (PSDWBCD)	Datblygiad yr Iaith Gymraeg (**WLD**)	Datblygiad Creadigol (CD)
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (LLC)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (KUW)	Chwarae yn yr Awyr Agored (**OP**)
Datblygiad Mathemategol (**MD**)	Datblygiad Corfforol (PD)	Chwarae Rôl (**RP**)

PSEWBCD LL MD WLD KUW PD CD OP RP

Asesiad yr Athro/Athrawes: *Dylai'r sgiliau a ddangosir gan y plant ffurfio rhan o asesiad parhaus. Dylid olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion yn unol â pholisi asesu'r ysgol a'i ddefnyddio i gyfrannu at gynllunio yn y dyfodol. Darperir taflenni cofnodi ar gyfer ysgolion fel rhan ddewisol o'r Cynllun gwaith hwn.*

Recording Sheet

Pupil Self Assessment

Blwyddyn 2 **Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**

Cyfathrebu syniadau

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y cwricwlwm
Yn gallu defnyddio'r cyfrifiadur i ysgrifennu brawddegau syml gan gynnwys atalnodau llawn a'r fysell Syflyd ar gyfer Prif lythrennau.	LLC WLD KUW	Mae'r plant yn creu darn o destun am eu profiadau fel rhan o waith dosbarth arferol. Gall fod yn gysylltiedig â phrofiadau dan do, awyr agored, taith dosbarth etc. Sicrhau bod y plant yn deall yr angen i strwythuro eu hysgrifennu i mewn i frawddegau, gan ddefnyddio atalnodau llawn a phrif lythrennau. Gofyn i blant sy'n gweithio mewn parau atalnodi darn sampl o ysgrifennu ac argraffu gwaith.	Atalnodau llawn Prif lythrennau Testun Ffont	Prosesydd geiriau Argraffydd	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn gallu defnyddio delweddau i wella testun	LLC WLD KUW	Edrych ar gylchgronau, llyfrau, barddoniaeth a siarad am sut y defnyddiwyd delweddau. Defnyddio delweddau o Fanc Lluniau a baratowyd yn eu gwaith. Tynnu lluniau gan ddefnyddio camera digidol o gwmpas yr ysgol a thir yr ysgol. Mewnosod llun ac ysgrifennu amdano mewn prosesydd geiriau. Defnyddio testun a delweddau wedi eu cyfuno i greu llyfr dosbarth yn y Saesneg neu'r Gymraeg sy'n gysylltiedig â thema neu bwnc.	Lluniau Testun Delweddau Symbolau Eiconau Graffeg Arwyddion	Lluniau, cylchgronau, llyfrau, barddoniaeth amrywiol Camera digidol Prosesydd geiriau Banciau lluniau	
Yn gallu defnyddio sain i wella testun.	LLC WLD KUW	Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau recordio sain, mae'r plant yn recordio sain o'r amgylchedd dan do yn ogystal â'r awyr agored e.e. chwaraewyr MP3, 'Tuniau Siarad' neu recordyddion tâp a siarad am y recordiadau. Recordio iaith lafar a/neu seiniau gyda microffon, i mewn i raglen briodol i wella testun. Gall y plant recordio iaith lafar i ddarlunio eu hysgrifennu mewn barddoniaeth, stori neu baragraff.	Sain Recordio Microffon Chwaraewr MP3 Recordydd tâp	Tuniau Siarad Seiniau Microffon Recordydd tâp Chwaraewr MP3 Meddalwedd sy'n caniatáu recordio iaith lafar	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn gallu siarad am y gwahaniaethau rhwng llawysgrifen a defnyddio'r cyfrifiadur ar gyfer testun.	LLC KUW	Dangos enghreifftiau o destun i'r plant gan ddefnyddio prosesydd geiriau. Gofyn i'r plant drafod sut mae'r gwaith yn wahanol i waith mewn llawysgrifen, e.e. *A yw'n hawdd ei ddarllen? A oes unrhyw wallau sillafu? A oes unrhyw groesi allan?* Cyflwyno'r syniad y gellir cynllunio sut i osod yr ysgrifennu gydag arddulliau a meintiau ffont amrywiol gan ddibynnu ar y gynulleidfa mewn golwg.	Testun Prosesydd geiriau Cyrchwr Arddulliau Ffont Maint Ffont	Prosesydd geiriau Pecyn Cyhoeddi Pen Desg Samplau testun	
Yn gallu newid maint, lliw ac arddull ffont y testun.	PSDWBCD LLC KUW	Bwydo darn o farddoniaeth neu rigwm a dangos sut i newid y maint, lliw a ffont. Caniatáu i'r plant sy'n gweithio mewn parau ymarfer gwneud newidiadau. Argraffu'r gwaith a siarad am yr hyn y maent yn ei hoffi a ddim yn hoffi am eu newidiadau.	Arddull Ffont Lliwiau Maint Ffont argraffu	Barddoniaeth Rhigwm Prosesydd geiriau Pecyn Cyhoeddi Pen Desg Argraffydd	
Yn gallu symud testun i fyny ac i lawr y dudalen.	LLC KUW	Ymarfer bwydo testun darn byr o farddoniaeth neu rigwm. Defnyddio bysellau i fyny ac i lawr, Back Space a Bwydo i weld sut y gellir symud testun a sut mae llinellau'n gallu newid. Siarad am sut y mae'r darn barddoniaeth wedi newid.	Testun Llygoden cyrchwr Back space Bwydo	Prosesydd geiriau Pecyn Cyhoeddi Pen Desg Barddoniaeth	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn gallu ychwanegu a dileu geiriau a mynd yn ôl i'r testun i wneud newidiadau.		Teipio darn o lyfr plant adnabyddus. Rhoi'r gair **'**a/ac**'** yn lle'r atalnodau llawn**.** Siarad am y darn gyda'r dosbarth ac esbonio bod defnyddio 'a/ac' dro ar ôl tro yn ei wneud yn ailadroddus ac yn anodd ei ddarllen. Dangos sut i ddileu 'a/ac', mewnosod atalnod llawn a newid y llythyren ganlynol i lythyren uwch. Gan weithio mewn parau, gofyn i'r plant olygu darn o destun a baratowyd.	Ffont Testun Dileu Ailadrodd Atalnod llawn Llythrennau Llythrennau uwch Golygu Backspace	Testun a baratowyd Prosesydd geiriau	
Yn deall yr angen i gadw gwaith.		Siarad am pam y mae'n bwysig cadw gwaith. Fel rhan o'u gwaith arferol, bydd plant yn dod ar draws rhaglenni cyfrifiadurol sydd â threfn cadw syml. Ymarfer cadw gyda'r rhaglenni hyn.	Cadw Eiconau Teitl Ffeil	Prosesydd geiriau Rhaglenni amrywiol	
Yn gallu cadw ac adalw gwaith gyda chymorth. Yn gallu argraffu eu gwaith.		Annog y plant i gadw eu gwaith gyda chymorth. *(Mae meddalwedd sy'n galluogi disgyblion i gadw eu gwaith eu hunain, heb lywio i'w ffolder gwaith disgybl yn syrthio i'r categori hwn.)* Gofyn i'r plant argraffu eu gwaith.	Cadw Adalw Ffeil Argraffu	Prosesydd geiriau Argraffydd Rhaglenni amrywiol	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn gallu siarad am waith a rhannu syniadau ag eraill.		Gan weithio mewn grwpiau bach, actio rôl gohebyddion. Y ffocws yw adrodd am fater ysgol.  Mae pob grŵp yn cyflwyno eu hadroddiad i'r dosbarth.	Geiriau prosiect penodol	Prosesydd geiriau cyhoeddwr pen desg Amlgyfryngau Bwrdd gwyn rhyngweithiol Camera digidol	
Dylid annog plant galluog i wneud dewisiadau am raglen addas i gyflwyno eu syniadau.		Bydd y plant yn defnyddio Prosesydd geiriau neu raglen cyhoeddi Pen Desg i fynegi eu meddyliau a'u syniadau. Gallai hyn gynnwys cyfuno testun, delweddau a sain. 	Testun Delweddau Sain	Prosesydd geiriau Cyhoeddwr pen desg	
Yn gwybod y gellir defnyddio'r cyfrifiadur i anfon a derbyn negeseuon drwy e-bost.		Dangos sut i anfon a derbyn neges at a gan ddosbarth arall o fewn yr ysgol. Gan weithio mewn grwpiau neu barau, ymarfer anfon neges syml at ddosbarth arall yn yr ysgol ac agor yr e-bost sy'n dod yn ôl fel ateb.	Neges Rhyngrwyd e-bost anfon derbyn	Rhyngrwyd Bwrdd gwyn rhyngweithiol Cyfrifiadur Personol	
Yn gallu defnyddio gwefan i anfon negeseuon e.e. e-gyfarchiad.		Creu neges, gwahoddiad neu gerdyn gan ddefnyddio gwefan fel Santa's workshop i anfon at ddosbarth arall yn yr ysgol.	Rhyngrwyd Gwefan Neges e-gyfarchiad	Rhyngrwyd http://www.northpole.com/Mailroom/	